# Y PASG

# Nonsens y newyddion da!

**Darlleniadau: Luc 24. 1 – 12**
**1 Corinthiaid 1.18 - 31**

‘Mae’r neges am y groes yn nonsens llwyr i’r bobl hynny sydd ar y ffordd i ddistryw. Ond i ni sy’n cael ein hachub, dyma’n union lle mae grym Duw i’w weld’ *(Beibl.net) 1 Corinthiaid 1.18*

‘Roedd yr apostolion yn meddwl bod stori’r gwragedd yn nonsens llwyr a doeddent ddim yn eu credu nhw!’ *(Beibl.net) Luc 24.11*

Roedd y syrcas yn y dref. Ni allwn oddef clown pan oeddwn i’n blentyn ac nid wyf yn frwd iawn nawr. Maent i fod yn ddoniol ac mae pawb yn chwerthin. Ond roeddwn i’n eu hofni! Yn ofnus oherwydd efallai y byddwn yn cael fy nwyn i mewn i’w chwarae nhw, ofn oherwydd y gallai rhywbeth ddigwydd i mi!

Maent yn gweithredu’r ffôl i roi hapusrwydd a llawenydd i bobl eraill, ond yng nghefn ein meddyliau (yn sicr yng nghefn fy meddwl i) mae delwedd y clown yng nghefn ei garafán yn rhywle’n bell oddi cartref, mewn dagrau oherwydd tristwch ac anobaith ei fywyd.

Mae dwy adnod yn y Beibl a all arwain ein meddwl heddiw. Mae’r adnod gyntaf yn ein tywys ni i’r groes: ‘Mae’r neges am y groes yn nonsens llwyr i’r bobl hynny sydd ar y ffordd i ddistryw’. Mae’r groes, sef calon a sylfaen llawer o’r hyn yr ydym ni’n ei gredu am Iesu ac am gariad Duw yn Iesu yn nonsens llwyr, nid yw’n gwneud synnwyr, mae’n ffolineb.

Ar groes mae’r Un wrthodwyd
fel bwgan brain o ddyn,
yn nonsens yn y gwacter
i bawb mewn rhuthr blin.

*(Mae’r cyfieithiad llawn o emyn Brian Wren ar ddiwedd y gyfrol hon.*

Yma, mae methiant, gwrthod, anobaith, breuder. Dyma Iesu'n cael ei wthio i'r ymylon. Mae'n ymddangos i bob llygad arferol fel nonsens i honni mai neges o obaith, o iachawdwriaeth yw hon. Ar y gorau, mae'n ymddangos, mae'n codi cwestiynau difrifol iawn am neges yr Efengyl Gristnogol:

> Sut all rhyw glown o dristwch
> gyhoeddi gair o nerth,
> a ffydd a serch yn rhithiau
> a gobaith yn ddiwerth?

Rhaid i'r ateb i gwestiwn o'r fath fod yn 'Na!'. Os bosib, ni all y fath 'glown o dristwch', ni all y gŵr a wrthodwyd – y bwgan brain sy'n hongian yn uchel ymhlith erchyllterau byd creulon a threisgar (lle mae gobaith yn ddrychiolaeth a gobaith yn abswrd) – ni all hwn ddod â gair nerthol, ddefnyddiol!

Ac eto, ac eto! Yn y person bregus hwn, yn yr un gwrthodedig hwn, ac yn ein methiant a'n tywyllwch ni, cawn yr olwg ddyfnaf a mwyaf pwerus ar bŵer ac ystyr a gobaith cariad.

> Gall bywyd, gwag o ystyr,
> trwy flinder trallod hir,
> weled, trwy Grist fy Arglwydd,
> lawenydd ym mhob cur

Mae cariad, cariad hunan-aberthol yn y pen draw gyda ni yn y gwacter a'r anobaith y mae cymaint yn ein byd yn eu teimlo yn nyfnder eu bod.

> A'r cariad ddaeth o'i wirfodd
> i bwll anobaith du
> all enwi'r nos ddisynnwyr
> a dioddef gyda ni.

Beth bynnag yw croes Crist, dyna'r lle y mae cariad yn dod i mewn i'r dyfnder yn y pen draw 'ac yn dioddef gyda ni yno'. Yma i ni ac ar gyfer y byd, y ffolineb hwn, y 'clown' hwn o dristwch, yw pŵer cariad Duw yn dal ar waith yn y byd. Ond mae mwy i'w ddweud a mwy o 'nonsens' i'w ystyried: 'Roedd yr apostolion yn meddwl fod y stori yn nonsens llwyr a doeddent ddim yn eu credu nhw!'

Dyma enghraifft arall o nonsens. Y pryd hwnnw, fel 'nawr, roedd hi'n anodd credu bod pobl yn 'codi o feirw'. Nid yw'n gwneud synnwyr. Mae'n ffolindeb. Hyd yn oed ymhlith y rhai a fu'n cadw cwmni i Iesu (sylwch eu bod yn cael eu galw yma 'yr apostolion' ac nid yn unig 'y disgyblion' - ni ddylai arwyddocâd y teitl hwn gael ei golli gennym ni, hyd yn oed os nad oeddent yn credu neges y merched. Annibynadwy! Nonsens!

Ac, wrth gwrs, mae'n afresymol, yn groes i'n holl ddisgwyliadau. Nid yw'r math hwn o beth yn digwydd! Ond y disgyblion hyn y mae Iesu yn cwrdd ar ôl yr atgyfodiad a'r rhain, er gwaethaf eu hamheuaeth parhaus, sy'n cael eu danfon gan Iesu i fod yn dystion y newyddion da: ewch i gyhoeddi'r Efengyl i'r byd i gyd.

Rydyn ni yma nawr, yn credu nawr, yn dilyn Crist nawr oherwydd yn y pen draw ac er gwaethaf yr holl dystiolaeth a disgwyliadau, roeddent yn credu, aethant a chyhoeddi. Mae'n bosib mai nonsens yw hwn i feddyliau rhesymol, ond dyma'r neges o obaith oedd yn trawsnewid y byd. Ac rydym yn cael ein galw i ddilyn eu traed: gafael ar y neges ffôl hon ac ar y nonsens hwn a dod yn ffyliaid, er mwyn Crist; i gyhoeddi a byw yr hyn sy'n ymddangos yn neges amhosibl o obaith mewn byd anobeithiol.

Yn 2013, roedd gan y cylchgrawn, Green Christian, erthygl o'r enw 'Send in the clowns'. Mae'n sôn am glown yn y termau hyn: "Y mae clowniau yn fwy o ffyliaid ar ymylon pethau, pobl sy'n barod i fod yn ddigon o glown i geisio'r deyrnas heb unrhyw ddisgwyliad am unrhyw wobr na bendith ... Mae proffwydi a chlowniau yn barod i fod yn fregus, yn barod i osod eu hunain yn agored trwy weithredu fel gweision mewn byd sy'n casáu gwendid, diffyg uchelgais a gwahaniaeth ... Dim ond pan fyddwn ni'n dysgu bod yn glown (yn ffŵl) er mwyn Crist ... y bydd y gymuned Gristnogol sydd wedi ei chlwyfo, sy'n gwaedu, yn medru tywallt iachâd a gobaith newydd mewn oes o anobaith dinistriol. "(Chris Walton a Ross Ashley)

Heddiw, rydyn ni'n cael ein herio eto i fod yn ffyliaid er mwyn Crist, i gyhoeddi trwy ein geiriau a'n bywydau, trwy ein tosturi a'n gweithredu, bod y cariad a groeshoeliwyd ar y groes yn dal i fod yn bŵer sy'n rhannu

dyfnder dioddefaint dynoliaeth a byd dioddefus. Heddiw, rydym yn cael ein herio i fyw allan y gobaith sy'n ymddangos yn anhygoel mewn byd o wrthdaro, trais, anghyfiawnder a gormes, y gellir adnewyddu a thrawsnewid ac adfer, oherwydd mae Duw yn gweithio yn ein byd ni o hyd yn yr Iesu a gododd, yn ein defnyddio fel ei bartneriaid.

Mewn pregeth ar Ddydd Sul y Pasg, 1957, dywedodd Martin Luther King mai 'cariad yw'r grym mwyaf pwerus yn y bydysawd' Mae'r cariad hwn, meddai, yn cynnwys risg a thyfiant. Cariad sy'n trechu llwfrdra. Mae'n cryfhau'r enaid ymysg tywyllwch yr awr. Mae'n ein galw ni i garu a thystio i wyrth yr atgyfodiad gerbron y pwerau sydd, ni waeth beth yw'r canlyniadau.

Efallai y bydd y cwestiynau'n dal i fod yno, efallai y bydd yr amheuon yn dal i'n poeni, weithiau byddwn yn tybied a yw hyn i gyd yn nonsens, ond heddiw mae'n ddiwrnod i afael eto yn llaw Duw, i wynebu y dyfodol gyda gwroldeb a dewrder trwy'r Crist sydd wedi'i groeshoelio a'i gyfodi, ac sy'n cerdded i'r dyfodol mewn cariad a gobaith gan wybod yn y diwedd "Bydd popeth yn dda, bydd popeth yn dda, bydd pob peth yn dda" neu yn y geiriau o'r gân ysbrydol sydd wedi ysbrydoli cenedlaethau o gaethweision a'u holynwyr hyd heddiw: 'We SHALL overcome, we SHALL overcome, we SHALL overcome one day'.

Yng ngeiriau Brian Wren:

> Grist, godaist yn ein t'wyllwch,
> a'n llygaid tua'r dydd,
> cydiwn yn llaw d'addewid,
> nes troi yn weld pob ffydd.

Boed i ni weld, a thrwy weld credu ac o gredu, byw atgyfodiad y Crist croeshoeliedig.